WG35. S. 58

# COF-GOLOFN GALAR;

SEF

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR

## BARCH. DANIEL GRIFFITHS,

SOAR, CASTELLNEDD,

*Yr hwn a fu Farw Ebrill 1af, 1846, yn 48ain oed.*

---

**GAN DANIEL EVANS,**

*Maesyrhaf, Castellnedd.*

---

"Yn y dyddiau hyny y galarais i Daniel dair wythnos o ddyddiau:"
DAN. 10, 2.

---

O Dduw rho help i gânu gan gofio'r farn a ddaw,
Heb wyro'n ymwybodol i'r ddê na'r aswy law;
Er meddwl briw a theimlad galarus dan fy mron,
Gwirionedd pur diweniaith fo'n llanw'r Farwnad hon.

---

*Argraffedig ar ddymuniad y Weddw.*

---

LLANELLI:

ARGRAFFWYD GAN D. REES, HEOL-Y-DWFR.

1846.

X20530 9118

15238

Accessions No. 15238
Class No. p WG16·12

# MARWNAD, &c.

MAE Soar wedi newid, mae'r pwlpud heddyw'n ddu,
Mi welaf drwy'r ffenestri 'r arwyddion galar sy,
Mae 'mrawd fu faith flynyddau ar furiau Brenin gras,
Yn gorwedd mewn daeargell, oer 'stafell oddi fas.

Un cas yw'r palis haiarn, un gas yw'r gareg fedd,
Sydd rhyngwyf a fy nghyfaill i'm rhwystro wel'd ei wedd,
Yn nghanol blin deimladau 'rwy'n gorfod sefyll draw;
Er llai na dwylath iddo 'chaf air nag ysgwyd llaw.

Cymerwch bwyll feddyliau, 'n fwy araf dewch yn mlaen,
Mae'r awen am eich gwenau mewn help defnyddiau cân;
Hyfrydol yn eich cwmni, ond i chwi gadw'ch lle,
Fydd genyf fwrw golwg ar fywyd gwas y ne'.

Saith cant naw deg ac wyth-flwydd uwch mil o flwyddi i ben—
Blwydd geni 'nghyfaill Griffiths—oedd oedran Brenin nen.
Man ganwyd, gwn y bwthyn, yn nyffryn afon Nedd,
Dangosodd i mi'r 'stafell rai misoedd cyn ei fedd.

Ca'dd dad yn caru'r Arglwydd, ca'dd fam yn ofni Duw;
Diolchai am weddiau 'i rieni tra fu byw.
Arferwyd o'i fabandod roi parch i bethau gras;
Gwnaeth hyn drwy 'i oes nes rhoddi'r anadliad ola' ma's.

Cyn gweled fawr flynyddau yn oreu gwelai'r nef
Gymeryd ei rieni oddiwrtho draw i dref;
Ca'dd dad mewn brawd i'w fagu, perthynas fu iddo'n fam;
Gofalwyd gan Ragluniaeth 'chai neb wneyd ag ef gam.

'Run oed a brenin Juda, Josia, duwiol ddyn,
Fy nghyfaill oedd, pan geisiodd ef grefydd iddo'i hun,
Fe wisgodd lifrau'r Brenin yn un ar bymtheg oed,
Y'ngafael penderfyniad byth ddilyn ol ei droed.

Yn Melincwrt derbyniwyd e'n aelod eglwys Dduw,
Nid cangen grin y profodd, ond îr blanhigyn byw;
Gwresogrwydd gyda'r moddion, parch dwys i ddeddfau'r nef,
Dawn gweddi, llafar cânu, uwch miloedd gafodd ef.

UNIV. COLL. OF WALES LIBRARY NOV 1 1916

Yn ngwres ei gariad cyntaf fe gerddai fro a bryn
I gyrddau'r holl gym'dogaeth—mae cofio hyd yn hyn;
Pan fyddai ar ei liniau dan awel gwynt y ne',
Hwyl moli fyddai'n fynych yn llanw'r man a'r lle.

'Nol bod ar fronau'r eglwys prin ddwywaith ddeuddeg mis,
Yn gwel'd ei fod mewn doniau'n cynyddu gyda brys,
Rho'w'd arno gan y brodyr ymestyn cam yn mla'n,
I alw pechaduriaid o lwybrau uffern dân.

I'r llais ni bu'n anufydd, rhag iddo ddigio Duw,
Cydsyniodd â'r cymhelliad yn nghôl teimladau briw;
Sail pwnc ei bregeth flaenaf oedd, crea galon lân,
O Dduw rho ysbryd uniawn im' ar fy nhaith yn mlaen.

Braidd erbyn iddo ddechreu cyhoeddi'r golud gwell,
Fe aeth y son am dano yn agos ac yn mhell;
Morganwg a sir Fynwy oedd yn awyddus iawn
Am gael ei gyhoeddiadau, poblogaidd oedd ei ddawn.

Mewn llafur am wybodaeth bu'n Baran flwyddi rai,
Y dydd yn dysgu'r *grammar*, pregethu'r nos mewn tai;
Cwmaman a Chwmllynfell, Llangiwc, ar led a hyd,
Bu'n cynyg gras ei Arglwydd 'rhyd fwya'r plwyf i gyd.

Cynhyrfodd ysbryd gwrando rhagorol yn y wlad,
Serch mawr at gyfarfodydd crefyddol ar ei dra'd;
Trysori yn y meddwl benodau Bibl Duw,
A dysgu pynciau ysgol o fodd 'roedd pawb yn fyw.

Fe gadwai fanau'n fisol pe buasai'n chwech neu saith,
Ni chawsai fod yn segur byth, byth, o eisieu gwaith;
Fe 'nillai serch teuluoedd ond unwaith iddynt fyn'd—
'Roedd plant a holl ieuenctyd y gwledydd iddo'n ffrynd.

Ble'r bobl dros y bryniau mewn lludded mawr a chwys,
Yn tŷru'n rhyw finteioedd nos waith mewn cymaint brys?
O! i wrando Daniel Griffiths, dyn ieuanc dawnus gwiw,
Sydd heno rai milldiroedd draw'n sefyll dros ei Dduw.

Er yfed dysg yn mhellach, yn Neuaddlwyd fe fu
Ddwy flynedd gyflawn agos, 'nol hanes gefais i;
Tra yno tòrodd allan ddiwygiad grymus ddawn,
Y lle'n un fflam grefyddol am fisoedd lawer iawn.

Yn ngwres yr hwyl pregethai fy nghyfaill ddydd a nos,
Mor ddoniol byddai'n galw'r torfeydd at waed y gro's,

O Sinai i Galfaria, tra'n parâ ddyddiau'r tân; [a chân.
'Doedd braidd mewn cwrdd i'w glywed ond gweddi, mawl,

'Run lle, 'run pryd, dan addysg, 'roedd Griffiths o'r Alltwen,
Hughes, Dowlais, Rees,* a Davies,† cenadau llys y nen,
Heblaw enwogion ereill, rhy faith eu henwi 'nawr,
Fu'n fwy neu'n llai llwyddianus y'ngwinllan Iesu mawr.

Pan 'madael â'r Athrofa, fy mrawd yn noniau'r nef,
Cadd alwad i fugeilio eglwysi'r saint yn nhref,
Yn Melincwrt, lle 'magwyd e', 'nghyd â Chastellnedd,
Y llefydd bu'n llwyddianus a pharchus hyd ei fedd.

'Nol iddo gael ei urddo i gyflawn waith y ne',
Fe dòrai ma's i'r aswy, fe dòrai ma's i'r dê;
Ymwelai â Chalfaria a Sinai bob yn ail,
Llawn mwg a thân ar brydiau, ond amlaf goleu'r Haul.

Enillwyd i'r eglwysi aelodau lawer iawn,
Ymgasglai 'nghyd wrandawyr nes bai'r capeli'n llawn;
Draw GRIFFITHS yn y pulpud yn canmol bwrdd y wledd,
Mae'r dorf dan ddagrau'n gwenu mewn hwyl caniadau hedd.

'Mhen pum mlwydd codwyd Soar, tŷ dwy-fil-werth neu fwy,
Fe wnawd cymdeithas Sion oedd un cyn hyny 'n ddwy;
Dau achos gan y brodyr, dan faner Brenin nen,
Arwyddion, yn y ddeufan, mawr iawn mai Duw sy' ben.

Fe ymunodd mewn priodas, yn wyth ar hugain o'd,
A boneddiges ieuanc hyfrydaf all'sai fod;
Trwy'r undeb daeth i'w feddiant feddianau fwy na mwy,
Eill dau, o'r dydd i'r diwedd, mor ddedwydd buont hwy.

I gyrddau pell ac agos fe deithiodd lawer iawn— [llawn;
Heb GRIFFITHS yn Morganwg 'doedd dim o'r cyrddau'n
Sir Fynwy, Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro fras,
Poblogaidd iawn fy nghyfaill pan fyddai'n codi ma's.

Poblogaidd yn y trefydd, poblogaidd yn y wlad,
Poblogaidd mewn cymanfa, tri deng mlwydd prawf a ga'd,
Poblogaidd yn y maesydd, poblogaidd yn y tŷ,
Elias (Môn) Morganwg oedd DANIEL GRIFFITHS ni.

Poblogaidd yn Llynlleifiad, poblogaidd Llundain fawr,
Poblogaidd yn Nghaerodor, medd hiraeth yno 'nawr,

* Groeswen. † New Inn.

Poblogaidd yn y gogledd, poblogaidd yn y dê,
Ond nid yn fwy poblogaidd yn un man nag yn nhre'.

Hosana, Haleluia, fe dòrai'n waeddu ma's
Gan filoedd mewn cymanfa dan wlith cawodau gras,
Yn fynych pan fy nghyfaill, fy mrawd o Gastellnedd,
Yn canmol trefn y bywyd yn ymyl bwrdd y wledd.

Fe gafodd alwad yma, fe gafodd alwad draw,
Oddiwrth gyfeillion garai bron fel ei ddeheu law,
I fwrw golwg arnynt ac aros yn eu plith,
Ond ffryndiau dyddiau'i fagu ga'dd feddu arno byth.

Ffrynd arfaeth, cyfaill ethol, ffrynd mawr cyfamod hedd,
'Roedd *plan* y cynghor boreu yn mryd fy mrawd yn wledd;
Holl ddyddiau'i oes fe gredai y'ngoleu gair fy Nuw,
Heb ddwyfol nerth na welir pechadur byth yn fyw.

Fe gredai, fe bregethai ar g'oedd yn llwyr ddigryd,
Fod nwyfau'r groes yn ddigon ar gyfer eisieu'r byd;
Fe gredai os perthynas unwaith rhwng dyn a Duw,
Mai undeb annatodol, trag'wyddol undeb yw.

Ffrynd mawr ymwel'd â'r cleifion, ffrynd mawr i'r ysgol gân,
Ffrynd mawr cael plant yr ysgol Sabothol yn y bla'n,
Ffrynd gweithio yn yr eglwys, ffrynd cynorthwyo'r tlawd,
Ffrynd anwyl gwraig a theulu, ffrynd Iesu oedd fy mrawd.

Nid aelod o'r gymanfa a chyrddau mwya'r sir,
Gwr mawr am gwrdd pellenig, rhyw debyg gweithiwr hûr,
Heb barch i gyrddau gweddi a chyfeillachau'r saint,
Oedd—ond ei gred bod ynddynt yn ddyled ac yn fraint.

Pan ymdrech wnawd yn Nghymru gael temlau gwraig yr O'n
Maes o garcharau'r ddyled, o fin Caerdydd i Fôn,
Fe roddodd haner can punt ei hunan ar un waith,
Cyfochrog iddo 'Nghymru 'rwy'n meddwl nad oedd saith.

Fe roddodd fenthyg teimlad a siarad amser mawr,
Gwasanaeth mewn trafaelu, hwyr nos a chyn y wawr;
O'r cyfan wnawd y' Nghymru gwnawd y bedwaredd ran
Gan ffryndiau hael Morganwg—fy mrawd â'r llu 'mhob man.

Bu tŷ ei lafur mwyaf, o dan ei ddyled mawr,
Yn rhwystr iddo gysgu flynyddau lawer awr,
Ond gwelodd cyn ei farw, o gariad Duw a'i ras,
Y tŷ fu'n drwm ei ddyled, o'i ddyled bron i ma's.

Fe feddai mrawd awdurdod, dylanwad yn mhob lle,
Fe safai yn yr eglwys y gair ddywedai 'fe;
Ac yn ei deulu cafodd, mewn cariad, fod yn ben,
Heb arfer un creulondeb, nes myned draw i'r llen.

Pryd ei anwyliaid bychain yn chwareu wyth neu naw,
'Doedd swn nac un ymrafael tra fyddai 'fe gerllaw;
Er mewn diwydrwydd chwareu nes f'allai chwysu'n llaith,
Anfynych eisieu gwialen na gair bygythiol 'chwaith.

Pan unwaith meddwl—galwad ceryddu'r bychan draw,
Am fai—rhyw goll plentynaidd, mae'r wialen yn ei law,
'Does grym i daro ergyd, mae'r bychan wrth ei dra'd
Yn llefain, Cyn fy chwipio, rho'wch gusan i mi nhad.

Anwyl-ddyn ei eglwysi oedd Griffiths yn ei ddydd,
'Rho'w'd iddo fynwes gynes hyd gell ei wely pridd;
Er cystal doniau'r gogledd, er cystal doniau'r dê,
'Doedd ddoniau'n mryd ei bobl byth well nâ'i ddoniau fe.

Brawd—byddai 'i ymadroddion oddiyma ac o draw
Fel meini gwedi 'u nhaddu yn gorwedd tan ei law;
Cymhwysder dawn a synwyr yn uno rhai'n ynghyd;
Darn hardd o adeiladaeth ei bregeth fyddai 'i gyd.

Brawd gweithgar yn ei fywyd, brawd diwyd yn ei ddydd,
Brawd croes i dymher ddiog, brawd ffyddlon, calon rydd.
Brawd yn ei ddeg ar hugain blynyddau ar y mur,
(Heb wybod dim am ddiogi) wnaeth dreulio fel y dur.

Brawd meddwl penderfynol, brawd 'doedd na gwynt na gwlaw
Braidd byth yn rhwystr iddo; brawd welai ddrwg o draw;
Rhyw lewod a mynyddau dych'mygol fwy na mwy,
Fe welodd oes i'w therfyn heb fawr o'u dychryn hwy.

Os pethau dydd blaenorol yn rhwystro 'mrawd i fyn'd
Filldiroedd fwy nag ugain i gwrdd gwahoddiad ffrynd;
'Does dim ond codi'r boreu rai oriau cyn y wawr,
Mae'r cwrdd am ddeg yn dechreu—fy mrawd fydd yno'r awr.

Brawd cynes ei deimladau'n pregethu Adda'r Ail;
Brawd croes i grefydd oleu heb hefyd wres yr Haul;
Brawd byw bregethodd filoedd ar filoedd yn ei ddydd,
'Chai cwrdd b'ai ynddo'n unlle fod (heb bregethu) 'n rhydd.

Brawd byddai rhyw orfoledd trwy'r gwersyll yn mhob man
Pryd byddai mewn cymanfa fy mrawd yn codi i'r lan;

Brawd rhyw beth tra mawreddog deniadol yn ei bryd
Yn rhwymo, cyn bai'n dechreu, feddyliau'r dorf i gyd.

Brawd aml gyda'i bobl fel bugail yma a thraw;
Brawd doeth, fe gadwai'r canoedd o'u gwirfodd wrth ei law;
Brawd difalch ymddangosiad, brawd safai ar ei dra'd;
Brawd, gan anwyldeb iddo, 'r edrychid arno'n dad.

Brawd mynych mewn angladdau—bedyddiodd lawer iawn;
Brawd ar ei farch yn rhywle y boreu fel prydnawn;
Brawd tyner pan yn ymdrin â'r clwyfus deimlai'i glwy';
Brawd, llaw cymdeithas roddodd i ganoedd fwy na mwy.

Brawd 'chawsai unrhyw ofid gwrdd byth â'i briod wiw
O'i fodd—gwnai bob egniad i'w atal tra fu byw;
Brawd anwyl o'i anwyliaid, fu'n un ar ddeg o ri'—
Anhawdd cael Tad tirionach byth ar ein daear ni.

Brawd lluniaidd gyfansoddiad, gwedd denau'i wynebpryd,
Brawd cry'i beirianau llafar, brawd canolradd ei hŷd,
Brawd barn o'i eiddo'i hunan, brawd—sobrwydd yn ei wedd,
Brawd hawddgar, tymer weddus, oedd GRIFFITHS, Castellnedd.

Yn Melincwrt a'r Sciwen, y dref, a Godre'rhos,
Caw'd profi lawer canwaith felusder grawn y gro's,
Pan fyddai'n ngwres ei ddoniau, yn ngafael hwyl a nerth,
Yn canmol pethau'r prynu heb arian ac heb werth.

Tra fyddai'r dw'r yn disgyn gyflawnder ar y rhod,
Fe fyddai mor ddifyrus a glywodd dyn erio'd;
Pob llygad arno'n syllu, y dorf mewn hwyl—Amen,
Meddyliau'n teimlo'n oeri, wel'd tŷnu'r cwrdd i ben.

Ond er mor anwyl ydoedd gan ddynion a chan Dduw,
Ca'dd wybod ar y ddaear mai nid y nefoedd yw;
Ca'dd gwrdd a llawer 'storom, ca'dd weled llawer tòn
O bell yn bygwth boddi pob cysur dan ei fron.

Pryd unwaith yn llafurus a gweithgar dros ei Dad,
Gorlifodd dros ei enau gyflawnder mawr o wa'd;
Hwyr-deithiau—rhoddwyd arno gan 'speilwyr dro neu ddau,
Ond dianc wnaeth yn rhyw fodd, bob tro heb ddimai'n llai.

Fy mrawd bregethodd ganwaith yn agos, weithiau'n mhell,
Pan aros mewn ystafell neu wely fuasai well;
Rhy glaf i fyned allan trwy d'wyllwch, gwynt a gwlaw,
Ac eto maes yn myned at ryw gyhoeddiad draw.

Ca'dd fod heb frawd ei briod, ca'dd fod heb frawd ei hun,
Ca'dd fod heb Daniel Griffiths ei fab—ei hunaf un;
Ca'dd ffit chwech awr yn Llundain, ca'dd hefyd ffit yn nhref
'Run flwyddyn, lai nâ dwy flwydd i'w flwyddyn olaf ef.

Ddeunaw mis cyn myn'd adref, tra trwy yr Hydre'n glaf
Rhow'd arno'n daer roi fynu pregethu hyd yr haf;
Er talu 'mrawd am beidio, 'roedd peidio iddo'n boen—
Hyfrydwch mwya'i enaid oedd siarad am yr Oen.

Ar ol rhyw 'chydig fisoedd fod heb bregethu dim
Dechreuodd ar bregethu drachefn â'i holl rym,
Hyd bedwar mis cyn marw, pryd d'wedodd Brenin nef,
'Does dim pregethu rhagor i fod cyn d'od i dref.

Golygfa dra effeithiol un Saboth yn ei dŷ,
Golygfa dŷnodd ddagrau'n rhwydd dros fy ngruddiau i:
Ar wely'n wael, fy nghyfaill, plant mân mewn 'stafell draw—
Yr hena'n un ar bymtheg, rhai i'engach, wyth neu naw.

'Rwy'n cofio'i agwedd egwan, yn dda 'rwy'n cofio ei wedd,
'Rwy'n cofio'i boen a'i beswch, bythefnos cyn ei fedd;
'Rwy'n cofio'i boen' llafanr y'nghanol bloesgni blin
Pan'n gofyn genyf adrodd yr hymn ganlynol un:

"Ymado wnaf â'r babell 'rwy'n trigo ynddi 'nawr,
Colofnau'r tŷ ddatodir, fe'i cwympir oll i lawr;
Aiff pob gwahanglwyf ymaith, glân fuddygoliaeth mwy—
'Rwy'n cânu wrth gofio'r boreu na welir arna'i glwy'."

Y diwrnod ymadawodd 'fewn llai nâ phedair awr
I derfyn rhosydd Moab, ar fin yr afon fawr,
Gofynai i fam yn Israel, gan nodi'r penill fry,
Chwaer anwyl, Mrs. Morris,* gwnewch gânu'r hymn i mi.

Y deuddeg awr ddiweddaf fe deimlai'i babell bridd
Er goreu priod mynwes, yn oer, diwres, drwy'r dydd;
Gadawodd bob afiechyd ar fachlud haul brydnawn
Ar ol am byth, aeth ymaith i wlad sy'n iachus iawn.

Oed Brenin y gogoniant oedd deunaw cant ynghyd,
Tri deg ac un ar bymtheg, hawdd nodi'r cyfri'i gyd;
Y cyntaf ddydd yn Ebrill, yn wyth a deugain o'd
Pryd galwyd i Gaersalem fy nghyfaill uwch y rhod.

* Gweddw y diweddar Gadben Morris o Gastellnedd.

Mae'r wefus wedi rhewi, mae'r tafod heddyw'n fud,
Mae'r glust, y llaw, a'r llygad, yn nghlo gan gwsg i gyd;
Fe ddrylliodd angeu'r delyn gynhyrfai'r werin wiw
Ar feusydd gras i ddawnsio mewn hwyl molianu Duw.

Mae'n eisieu mewn cymanfa, a chyrddau mwya'r sir,
Ac hefyd yn ei deulu mae'n eisieu amser hir;
Mae'n eisieu'n ei eglwysi, mae'n eisieu 'Nghastellnedd,
Mae'n eisieu i wel'd yn mhobman, mae nghudd dan faen ei fedd.

Pan ỳrodd yn ei gerbyd i mewn i'r ddinas well
Ddydd gadael pob rhyw ofid ar ol yn ddigon pell;
Pwy ond ei fab anwylaf ar g'o'dd miliynau'r wlad,
Ddychymygaf, glywai'n bloeddio, Hosana! dyma Nhad!

Cyn iddo ar ei orsedd gael eistedd bedwar mis,
Pwy welai'n mhlith y miloedd yn d'od i mewn i'r llŷs,
Ond 'Liza'i ferch ieuenga'n d'w'soges yn ei gwỳn,
Yn gwenu pan ei gwelodd mor iach ar ael y bryn.

Nos Sul, 'mhen haner blwyddyn 'nol iddo fyn'd i dref,
Cyrhaeddodd iddo'r newydd o Soar hyd y nef:
Fod 'r henaf un o'i ferched, ei anwyl Mary-Ann,*
Yn mhlith gwyryfon Sïon yn dringo tua'r làn.

Mae'r pedwar heddyw'n llawen yn Salem gôl yn nghôl,
Nid miloedd myrdd o fydoedd gymerent am dd'od 'nol;
Er cystal mynwes teulu a ffryndiau tir y byw,
Anfeidrol gwell paradwys, bryn gorphwys, mynwes Duw.

Er miloedd yn ei angladd, 'roedd sobrwydd yn mhob gwedd,
Dangoswyd iddo gariad a pharch hyd làn y bedd;
Tywodwyd yr heolydd, fe gauwyd masnach dai,
Ac hefyd yn yr ardal ataliwyd gweithiau rai.

Gweddiodd Rees, Siloa, mewn galar wrth y tŷ,
Yn Soar, Pryce, Cwmllynfell, weddiodd gyda'r llu;
Pregethodd Morgans, Llwyni, ac Evans, Castellnedd;
Hughes, Dowlais, Rees, Llanelli, areithiodd wrth y bedd.

Gweddiodd, cyn ymadael, yn ngafael mynwes brudd,
Hen gyfaill anwyl iddo'r brawd Powell o Gaerdydd;
Er yn llywyddu'r angladd 'roedd Griffiths o'r Alltwen,
Gan hiraeth am ei DDANIEL bron methu codi'i ben.

* Mary-Ann, merch henaf Mr. GRIFFITHS, yn myned i gyfeillach y brodyr yn Soar, nos Saboth, Medi 20fed; marw, Hydref 16eg, yn 17 oed.

Yr hymnau roddwyd allan bob cam oddiwrth y tŷ
Gan frawd Glandwr yn drefnus, ond yn ei fwrning dû;
Erioed o'r blaen ni welwyd fath angla' y' Nghastellnedd,
'Roedd Maer y dref a chyfan mewn galar wrth y bedd.

O frawd! paham gadewaist frawd yn y mŵg a'r tân,
Brawd unig wrtho'i hunan filwrio'i ffordd yn mla'n?
Mae'r byd o hyd yn gwaelu, mae ffryndiau'r fall yn gry',
Nis gwn hyd ddydd fy niwedd beth ddaw i gwrdd â mi.

Dau frawd 'run swydd, 'run enw, 'run enwad, a'r ün dref,
'Run Brenin, 'run arfogaeth, 'run canmol nwyfau'r nef, [bwrdd,
'Run ffydd, 'run ffordd, 'run winllan, 'run wisg, 'run bwyd, 'run
'Run nefoedd, 'run gogoniant, 'run bryn yn meddwl cwrdd.

Ni fuom gyda'n gilydd naw mlynedd ar y ma's,
Heb haner mynud rhyngom ymryson, tymher gas;
'Run tŷ, 'run teulu'n fynych, aelodau i ni'n dau,
'R ddwy eglwys yn cyd-weithio, cyd-gânu, cyd-fwynhau.

Mi glywa' mrawd, debygwn, yn dweyd ar ael y bryn,
Paid wylo frawd, bydd ffyddlon, daw terfyn loesau'r glŷn;
Try gwlad yr Aifft yn Ganaan, try dyfroedd Mara'n win—
Mae mynydd Sinai'n Sïon yn ngwm'ni Mab y dyn.

Mi welais waetha'r diafol, mi welais waetha'r byd,
Mi welais waethaf llygredd, mi welais waethaf llid;
Ond heibio deugain mlynedd mi welais oreu Duw,
Hebryngodd fi drwy angeu yn nghôl angelion gwiw.

Pan gollais dad naturiol, bu imi'n Dad ei hun,
Er colli mam yn ieuanc che's weled eisieu'r un;
Ce's ddillad ganddo i wisgo, ce's fwyd a thŷ a thân,
Ce's filoedd o gysuron ar hyd fy ffordd y' mla'n.

Fe ngharodd yn fy nghlwyfau, fe' ngwelodd yn fy ngwa'd,
Fy enaid ymgeleddodd â iachawdwriaeth rad;
Maddeuodd imi nyled, ce's foreu le 'n ei dŷ,
Rhag miloedd myrdd o ddrygau'n ei ras fe nghadwodd i.

Ce's fanna yn yr anial, ce's ddwr o graig y gro's,
Ce's gyfaill ffordd i'm harwain, ce's oleu yn y nos,
Ce's delyn yn fy ngofid, ce's dan fy esgid bres,
Ce's loches glyd i lechu, ce's gysgod rhag y gwres.

Ce's aur i'm cyfoethogi, ce's wisg a hono'n wen,
Ce's hefyd eli llygaid, ce's goron ar fy mhen,

Ce's brofi'r llô pasgedig, ce's fodrwy ar fy mys,
Ce's rodio gyda'r Brenin, ce's artref yn ei lys.

Mi roddais cyn ymadael fy mhriod hoff i Dduw,
Fy anwyl ddeg amddifad, fy mhedair eglwys wiw;
Er garwed tònau'r cenfor, er llawer craig a llyn,
Ca'dd rhai o honynt eisioes gwrdd glàn yr ochr hyn.

Mae pyrth y ddinas santaidd yn berlau goleu drud,
Trwy'r rhai daw'r llwythau adref o bedwar pwynt y byd;
Mae'n bleser gwel'd y lluoedd sy'n llanw mewn i'r lle,
O'r gogledd, o'r gorllewin, o'r dwyrain ac o'r dê.

Mae rhai fu'n mro'r crochanau, mae plant y gaethglyd fawr,
Yn rhodio'r ddinas auraidd mewn gwisgoedd fel y wawr;
'Does yma neb mewn tlodi, 'does yma neb yn glaf,
Na neb wyr ddim am ofid yn hyfryd wlad yr haf.

Mae Bowen Capel-issa yn mhlith y dyrfa fawr,
Mae Jones ac Evans, Merthyr, yn llawen uwch y llawr,
Mae Rowlands o Gwmllynfell, mae Davies, Mynydd-bach,
Jones,* Evans,† Howells, Baran, yn Nghanaan bawb yn iach.

Hosana, Haleluia, aeth heibio'r tywyll nos,
Hosana, Haleluia, darfyddodd dwyn y gro's;
Hosana, Haleluia, ffarwel defnyddio'r cledd,
Hosana, Haleluia, rwy'n byw yn ngwlad yr hedd.

Yn ngolau ffydd mi wela', nghymanfa Seion fryn,
Heblaw rhai enwa' nghyfaill, Jones, Pentref-y-ty-gwyn;
Mae Williams o Landilo, aeth echdo'‡ mewn i'r wlad,
Yn nghwmni Rees Llan'ddyfri, yn canu am y gwa'd.

Mae Herbert o'r Drefnewydd, mae Thomas Troed-y-rhiw,
Mae Williams gynt o Bethle'm yn Salem gyda Duw;
Mi welaf filmyrdd ereill o frodyr 'r ochr draw,
Rwy'n llon wrth feddwl oesi'n eu cwmni'r oesau ddaw.

Os drain yn lle rhosynau g'ai 'n fynych ar fy nhaith,
Os chwerwder Mara fwyaf ga'i gyda niwrnod gwaith,
Os aml yw'r crochanau, os cas yw beddau'r blys,
Os ofni nad yw modrwy 'r briodas ar fy mys.

Os cwrdd â llawer gauaf, os cwrdd â llawer nos,
Os cwrdd â llawer storom, os cwrdd â llawer cro's,

* Clydach. † Mynydd-bach. ‡ Medi 20, 1846.

Os cwrdd ac aml glwyfau, os ofni colli'r gad,
Os methu gwel'd y llwybr ar brydiau dan fy nhra'd.

Mae miloedd fu fel finau yn llesg a gwan cyn hyn,
Wrth dynu tua'r bywyd yn mlaen 'r hyd ffordd y glyn,
'Nawr gwedi cyrhaedd adref, gofidiau'r daith ar ben,
Yn gwisgo anfarwoldeb yn llys goleuni'r nen.

Hosana, Haleluia, mi wela'r bywyd draw ;
Dewch gariad, ffydd, a gobaith, rho'wch fenthyg help eich llaw,
Mae f' amcan am baradwys, er gwaetha'r pwys a'r po'n ;
Rwy'n meddwl gweled llawer ar swper gyda'r O'n.

Pan cofio gwylwyr Seion, fu'n ffyddlon yn eu dydd,
Ugeiniau rai sy'n cysgu yn ngwely 'r 'stafell bridd ;
Rwy'n teimlo'n friw hiraethlon, mae nghalon dan ei chlwy',
Am na chaf byth eu clywed na gwel'd eu hwyneb mwy.

Os na chaf wel'd fy nghyfaill mwy 'r ochr hyn i'r bedd,
Mae gobaith cael ei weled tu draw ar fryn y wledd,
Pob helbul wedi darfod, dim croes na thrallod mwy,
Ond chwareu ar delynau, anthemau marwol glwy'.

Y fam a'i hwyth amddifad fo'n anwyl gan y ne',
Dan aden glyd rhagluniaeth dyneraf caffont le ;
Os priod wedi marw, os tad y plant nid yw,
Mae cyfaill plant amddifaid a gweddwon eto 'n fyw.

Mae'r teulu gwedi'i ranu oedd dairblwydd 'nol yn un,
Rhan yn gartrefu 'Nghanaan, rhan yn yr anial blin ;
Os angeu'n medru ysgar teuluoedd 'r hyd y llawr,
Fe fedr gras ail-glymu yn ngwlad y gwynfyd mawr.

Boed cwmwl y gogoniant a'i wlith o bryd i bryd,
Fod ar eglwysi nghyfaill, hyd ddiwedd oesau'r byd,
Pob llwydd a phob dedwyddwch dan nawdd y nef fo'n cwrdd,
O aros, Arglwydd, aros, cei'r enw, paid myn'd ffwrdd.

Ffarwel fy mrawd, rhaid 'madael, rhaid gadael glàn dy fedd,
Troi 'nghefn, er mor anodd, heb olwg ar dy wedd ;
Ar ol dy ddydd llafurus, ewyllys Brenin nen,
Yw i ti yn dy wely, gael cysgu'th hun i ben.

DIWEDD.

ARGRAFFWYD GAN D. REES, LLANELLI.